DISGRIFIAD SWYDD

Teitl Swydd:	Technegydd Hylendid Dŵr
Adran:	Cydymffurfio a Diogelwch Adeiladau
Yn atebol i:	Swyddog Cydymffurfio Arweiniol
Cymwysterau:	ACOP L8 Cydymffurfio Ymarferol, Ymwybyddiaeth Legionella, a Pherson Cyfrifol am Legionella.
Dyddiad Adolygu:	Ebrill 2023

---

1. Dyletswyddau Allweddol

1 .1 Cynorthwyo'r tîm Cydymffurfio i gyflawni safon Cartrefi Diogel gan gynnwys cyflawni'r holl gydymffurfio cyfreithiol, yn benodol o ran legionella a chefnogi'r Prif Reolwr Cydymffurfio wrth sicrhau bod Cartrefi ClwydAlyn yn ddiogel i fyw ynddyn nhw.

1.2 Sicrhau bod asesiad risg a phrofion cyson yn cael eu cynnal ym mhob eiddo sy'n eiddo i'r Grŵp neu'n cael ei reoli ganddo i sicrhau eu bod yn cydymffurfio o ran legionella ac arferion hylendid dŵr da, gan gyfrannu at gynnal y polisïau a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

1.3 Darparu'r holl wasanaethau yn gysylltiedig â rheoli Legionella a gwasanaethau system ddŵr cysylltiedig i'r Rheolwyr a'r Rheolwyr Adeiladau, gan gynnwys rheoli'r holl asesiadau risg legionella, trefniadau iechyd a diogelwch, a chydymffurfiad y system.

1.4 Sicrhau medrusrwydd proffesiynol a thechnegol o ran rheolaeth statudol ar legionella. Darparu cyngor a chyfarwyddyd technegol, arbenigol ar faterion yn ymwneud â legionella, ac i sicrhau bod rheolaeth effeithiol a gwelliannau i'r systemau dŵr.

2. Gwybodaeth a Gallu

2.1 Cynnal gwiriadau tymheredd cyson ar systemau dŵr poeth / oer yn ôl cyfarwyddyd i systemau masnachol a domestig.

2.2 Deall pob math o systemau dŵr poeth ac oer mewn eiddo masnachol a domestig.

2.3 Bod â'r wybodaeth i gynnal a chofnodi asesiadau risg llawn, ac adolygiadau blynyddol yn unol â'r cyfarwyddyd presennol i atal legionella a diffyg hylendid dŵr.

2.4 Cynnal a chynorthwyo gwaith plymio i systemau dŵr poeth/oer domestig masnachol i leihau risg o legionella a diffyg glendid dŵr.

2.5 Y gallu i gofnodi a dadansoddi data yn gywir yn ddyddiol.

2.6 Blaenoriaethu asesiadau risg a gwiriadau tymheredd mewn rhaglen wedi ei strwythuro o waith, ar sail difrifoldeb y risg.

2.7 Y gallu i gadw polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol yn unol â gofynion y Grŵp.

2.8 Cynnal triniaethau dŵr, clorineiddio systemau dŵr, rhoi gwasanaeth a chofnodi fflatiau cwsmeriaid yng nghyswllt hylendid dŵr.

2.9 Cynnal triniaethau dŵr masnachol a chlorineiddio systemau dŵr.

2.10 Samplo dŵr yr holl systemau dŵr, eu deall a'u cofnodi.

2.11 Cynnal rheolaeth gwaith adfer yn gysylltiedig â dŵr a gwelliannau i'r system gan gynnwys penodi contractwyr, ymgynghorwyr gan gwblhau'r holl waith angenrheidiol, i gynhyrchu rheolaeth cost effeithiol ac effeithlon.

2.12 Darparu rheolaeth dechnegol lawn, cyfarwyddyd a chymorth ym mhob mater sy'n ymwneud â rheolaeth ddiogel ar systemau dŵr sy'n bresennol ym mhortffolio eiddo'r Grŵp.

2.13 Dadansoddi, gwerthuso a dehongli data a pharatoi adroddiadau technegol a dogfennau eraill ar gyfer y Swyddog Cydymffurfio Arweiniol a'r Person sy'n Gyfrifol am legionella.

2.14 Bod â dealltwriaeth dda o ACOPS L8 a'i bwysigrwydd i hylendid dŵr a rheoli legionella.

2.15 Y gallu i weithio ar systemau dŵr domestig a masnachol yn brif gyflenwad pwysedd uchel a systemau tanc.

3. Gweithio gydag Eraill

3.1 Cyfrannu at weithrediad effeithiol ClwydAlyn trwy ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi pwyslais ar y cwsmer.

3.2 Cysylltu gyda chysylltiadau mewnol ac allanol mewn modd cyfeillgar proffesiynol a pharod i helpu.

3.3 Trefnu / goruchwylio gwaith sydd wedi cael ei ddynodi o asesiadau risg neu archwiliadau a llofnodi ar ôl eu cwblhau.

3.4 Pan fydd yn ofynnol, cysylltu â rhanddeiliaid eraill i gytuno ar y gwaith i'w archebu, a'r fanyleb.

3.5 Gweithio gyda ffrydiau gwaith mewnol ac allanol i sicrhau bod unrhyw broblemau neu waith adfer systemau dŵr yn cael eu datrys yn effeithiol ac amserol.

3.6 Sicrhau bod Rheolwyr Cynllun a / neu randdeiliaid eraill yn gwybod am broblemau sy'n codi, gan roi cofnodion manwl o waith a wnaed a chynnydd ar swyddi.

3.7 Llenwi taflenni amser dyddiol, dyddiadur gwaith a cheisiadau am absenoldeb yn gywir.

3.8 Mynd i gyfarfodydd preswylwyr ac asiantaethau allanol fel fydd yn briodol.

Datrys Problemau / Gwneud Penderfyniadau / Blaengaredd

4.1 Dwyn i sylw'r Rheolwr Llinell a rhoi adroddiad am unrhyw arferion drwg trwy naill ai bobl fewnol / allanol neu systemau a all greu perygl (fel unedau cyflyru aer) mewn modd prydlon, gyda'r wybodaeth angenrheidiol i gefnogi hynny.

4.2 Datrys problemau trwy ddadansoddi'n ofalus ac ystyried y datrysiadau fyddai'n gweithio, gan gael cyngor y gwneuthurwr pan fydd hynny'n briodol.

4.3 Gwneud penderfyniadau addas ar ôl ystyried blaenoriaethau, cyfrifoldebau a'r angen am ddatrysiadau blaengar, ar ôl ymgynghori â'r awdurdodau perthnasol neu reolwyr ClwydAlyn.

4.4 Hyrwyddo arferion hylendid dŵr da i breswylwyr a chrefftwyr er mwyn lleihau'r risg o legionella a diffyg hylendid dŵr.

4.5 Disgwylir i ddeiliad y swydd hyrwyddo cynlluniau busnes a'r diwylliant trwy'r broses lunio penderfyniadau.

Defnyddio Technoleg

5.1 Defnyddio pecynnau TG mewnol yn effeithiol gan dynnu / llunio adroddiadau perthnasol o'r systemau cyfrifiadurol.

5.2 Bod yn fedrus o ran defnyddio offer diagnostig a phrofi i brofi systemau dŵr.

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd ddefnyddio PDA symudol neu offer tebyg ar ôl cael hyfforddiant.

Cyllidebau a Thrin Arian

6.1 Cadw cofnodion cywir am archebu a defnyddio stoc a deunyddiau yn ôl y safonau gofynnol ar gyfer dibenion archwilio.

6.2 Codi a phrosesu archebion gwaith / prynu, gan sicrhau eu bod yn cael y cod cywir ar gyfer dibenion cyllidebol.

.

6.3 Bod yn gyfrifol am wneud archebion yn ymwneud â Legionella a gweithgareddau adrannol eraill gan gynnwys archebion neu waith trwsio, (hyd at y gwerthoedd a bennwyd gan weithdrefnau'r Grŵp) gan sicrhau eu bod yn cael y cod cywir ar gyfer dibenion cyllidebol.

Amodau Anghymdeithasol / Amgylchiadau Arbennig

7.1 Yn gyfrifol am ddiogelwch Cerbyd y Cwmni a ddarperir yn ystod a thu allan i oriau gwaith.

7.2 Sicrhau bod Cerbyd y Cwmni a'r offer a ddarperir yn cael eu gwirio ac yn cael gwasanaeth yn gyson yn unol â gofynion y gweithgynhyrchwr a'u cadw mewn cyflwr glân a thaclus, a rhoi adroddiad am unrhyw ddigwyddiadau / ddifrod yn brydlon i'r Rheolwr Plymio a Gwresogi.

7.3 Gofynnir am agwedd hyblyg tuag at y rôl, gan y gall gwaith achlysurol ar fin nos a phenwythnosau fod yn ofynnol ac ymateb i unrhyw ddigwyddiadau mawr. Hefyd yn barod i gymryd rhan yn rota wrth gefn wythnosol yr adran plymio a gwresogi.

Cyfrifoldebau Craidd y Grŵp

8.1 Darparu a hyrwyddo Gwasanaeth Cwsmeriaid rhagorol yn weithredol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth mewnol ac allanol, gan sicrhau bod profiad y cwsmer yn un positif.

8.2 Bod yn gyfrifol am weithredu arferion Iechyd a Diogelwch yn yr arferion gwaith dyddiol gan rannu cyfrifoldeb cyffredin am Iechyd a Diogelwch ar draws y Grŵp.

8.3 Cydymffurfio â Strategaeth Rheoli Risg y Grŵp, gan ddynodi a lliniaru risg.

8.4 Bod yn gyfrifol am weithredu arferion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r Grŵp yn y gweithrediadau dyddiol.

8.5 Cydymffurfio â Gorchmynion Sefydlog, Polisïau a Gweithdrefnau'r Grŵp a gadael i Reolwyr Llinell wybod am unrhyw feysydd nad ydynt yn cael eu cynnwys yn ddigonol.